



Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Tachwedd 2018



Cynnwys

| | | |
|-----|---|----|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Y Cyd-destun Economaidd Cymreig | 4 |
| 2.1 | Rhagolygon economaidd y DU a rhanbarthol | 4 |
| 2.2 | Darlun o BBaCh yng Nghymru: deall ffactorau sy'n ffurfio'r galw am gyllid | 6 |
| 3 | Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid | 9 |
| 4 | Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru | 11 |
| 5 | Casgliadau | 13 |
| 6 | Bylchau data sy'n dod i'r amlwg | 14 |
| 7 | Dangosfyrddau Tachwedd 2018 | 15 |

Max Munday, Annette Roberts, Nikos Kapitsinis & Meng Song

Uned Ymchwil Economi Cymru,

Ysgol Busnes Caerdydd

mundaymc@cf.ac.uk

Am ragor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, anfonwch e-bost at:

DirnadEconomi@banccatblygu.cymru

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cynghori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyf, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru Ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo yn gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdod na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru Ccc (Banc Datblygu Cymru ccc) nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Golyga hyn nad oes unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuo gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru Ccc banccatblygu.cymru

Crynodeb Gweithredol

Y cefndir i Adroddiad Chwarterol (ACh) 2 yw'r disgwyliad y bydd **twf yn y DU yn arafu** yn y tymor byr i ganolig. Mae ACh2 yn datgelu ansicrwydd parhaus ar draws economi'r DU yng nghyd-destun trafodaethau Brexit, ac amgylchedd masnachu byd-eang yn tynhau. Ym mis Awst 2018, pleidleisiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol i gynyddu cyfradd y banc i 0.75%. Disgwylir i hyn effeithio ar dwf yn ystod y rhan olaf eleni, gyda chynnydd mewn cyfraddau hefyd yn dylanwadu ar gostau cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh) yng Nghymru.

Dangosyddion BBaCh

O'r 252,000 o BBaCh yng Nghymru yn 2017, roedd 95.5% yn ficrofusnesau yn cyfrannu 56% tuag at gyflogaeth BBaCh Cymru a 42% o drosiant, tra bo' cwmnïau bach (3.7% o'r holl BBaCh) yn cefnogi chwarter cyflogaeth BBaChau a 28% o drosiant.

Datgelodd yr *Arolwg Busnesau Bach 2017* fod cyfran y **busnesau bach a chanolig yng Nghymru** sy'n allforio wedi gostwng i 10%, a bod gan Gymru'r **gyfran leiaf o BBaCh sy'n gwneud elw** (73%), yn is na'r Alban (80%), Lloegr (83%) a Gogledd Iwerddon (86%).

Yn ystod y cyfnod 2012-17 gwelwyd bod **micro fusnesau yng Nghymru yn profi'r cynnydd mwyaf** yn nifer y cwmnïau (i fyny 18.8%) a throsiant (hyd at 25.2%).

Mae ACh2 yn datgelu **cyfradd geni busnes cyson is** yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, gyda gwahaniaethau mawr yn nwysedd y cwmnïau sy'n cael eu geni ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru.

Cyllid BBaCh

Adroddodd y *Monitrydd Cyllid BBaCh 2017* bod 41% o **BBaCh yng Nghymru yn defnyddio cyllid allanol** (gorddrafftiau, cardiau credyd a benthyciadau), ac fe ddatgelodd mai dim ond **40% o BBaCh yng Nghymru oedd â chynlluniau i dyfu** (i fyny o 32% yn 2016).

Mae ymchwil Beauhurst ar dueddiadau cyllid ecwiti at 2018 Ch3 yn dangos bod Cymru'n dangos symiau cymharol isel wedi'i fuddsoddi, ond cofnodwyd nifer uwch o gytundebau yn ystod y tri chwarter cyntaf 2018. Mae *Arolwg Busnesau Bach Hydredol 2017* y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn canfod mai dim ond 6% o **berchnogion busnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n defnyddio cyllid amgen**.

Cynyddodd cyfran y busnesau bach a chanolig yng Nghymru sydd â **risg credyd uchel** o 3.9% i 4.1% yn y chwarter sy'n gorffen ym mis Medi 2018. Cynyddodd y gyfran yn y categori **rhybudd** o 70% i 73%.

Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Cyrhaeddodd buddsoddiad cronus at 2018/19 Ch2 **£540m**.

Mae dros **3,000 o gwmnïau** wedi derbyn benthyciadau hyd yn hyn, ac amcangyfrifir bod y rhain yn gysylltiedig â gweithgaredd wedi **creu neu ddiogelu dros 30,000 o swyddi**. Bu **cynnydd cryf mewn buddsoddiad benthyciad newydd yn 2018/19 Ch2**. Mae'r tueddiadau yn gyfnewidiol ac yn cael eu heffeithio gan gymeradwyaethau unigol a buddsoddiadau mewn unrhyw gyfnod.

Mae gweithgarwch buddsoddi diweddar y Banc Datblygu ar ei uchaf ym maes adeiladu (£26 miliwn), ac yn dilyn hynny mae gwasanaethau proffesiynol (£8.3 miliwn) a gweithgynhyrchu (£8.1 miliwn). Mae'r buddsoddiad pennaf mewn micro fusnesau.

Daeth gwerth buddsoddiadau yn ystod hanner cyntaf 2018/19 i swm dros **£33m**, gyda'r rhain yn gysylltiedig â **chreu bron i 330 o swyddi** ac fe **ddiogelwyd bron i 930 o swyddi** pellach.

1. Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad chwarterol (ACh) Dirnad Economi Cymru (DEC) gan Ysgol Busnes Caerdydd sy'n archwilio i'r tueddiadau allweddol yn economi Cymru, gan ganolbwyntio ar y galw a'r cyflenwad ar gyfer cyllid Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh).

Mae cynnwys y gyfres ACh yn amrywio trwy amser, mae'n rhannol yn adlewyrchu argaeledd data ar BBaCh. Nod ACh2 yw adeiladu ar ac ehangu'r darlun sylfaenol o weithgaredd BBaCh yng Nghymru a sefydlwyd yn ACh1. Mae rhannau 2 a 3 o'r adroddiad hwn yn darparu data ac yn rhoi sylwebaeth mewn perthynas â chyd-destun macro-economaidd y DU lle mae BBaChau Cymru yn gweithredu o fewn hynny, ynghyd â dadansoddi ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid BBaCh, a chyflenwi a chostau cyllid. Amcanion y rhannau hyn yw deall:

- Ffactorau macro-economaidd sy'n siapia'r galw am gyllid BBaCh yng Nghymru.
- Tueddiadau mewn twf BBaCh, busnesau newydd yn dechrau, a rhagolygon goroesi busnesau yng Nghymru.
- Cyflenwad cyllid i BBaCh yng Nghymru.
- Y symiau a'r mathau o fenthyca / buddsoddi mewn BBaCh yng Nghymru.

Mae Rhan 4 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yng nghyd-destun ffactorau sy'n effeithio ar y galw am, a'r cyflenwad o gyllid i BBaChau yng Nghymru. I grynhoi, bydd y ACh yn nodi:

- Y defnydd a wneir o gronfeydd y Banc Datblygu wrth ariannu BBaCh yng Nghymru, a pha fath o fentrau a diwydiannau sy'n cael eu cefnogi.
- Dosbarthiad daearyddol buddsoddiad BBaCh ar hyd a lled Cymru.

Mae'r adran derfynol yn tynnu casgliadau o'r dadansoddiad cyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf yn y blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau yn ystod y cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o anghydfurfiad tymhorol gyda'r data yn yr adroddiad hwn.

2. Y Cyd-destun Economaidd Cymreig

2.1 Rhagolygon economaidd y DU a rhanbarthol

Mae llawer o ffactorau cymhleth a rhyng-gysylltiedig yn pennu'r galw am, a'r cyflenwad o gyllid allanol, i BBaCh yng Nghymru. Mae amodau economaidd cyffredinol mewn marchnadoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang yn effeithio ar dwf economaidd a busnes, ac felly'r galw am fathau gwahanol o gyfalaf a chymorth ariannol allanol, a'r cyflenwad ohonynt.

Mae yna ansicrwydd parhaus ar draws economi'r DU yng nghyd-destun trafodaethau Brexit, ac amgylchedd masnachu byd-eang yn dilyn cyhoeddiadau masnach diweddar o'r UD a Tsieina. Er enghraifft, mae buddsoddiad busnes yn y DU wedi parhau'n gymharol wan, gyda 0.7% yn disgyn yn ystod 2018Ch2 a pharhaodd y duedd twf blynyddol i fynd ar i lawr yn y Cynnyrch Domestig Twf (CDT a adwaenir yn aml fel GDP) yn 2017.

Cynyddodd CDT y DU 0.7% yn y tri mis hyd at Awst o'i gymharu â'r tri mis blaenorol. Yr oedd y twf allbwn yn yr ail chwarter yn cael ei yrru gan wasanaethau, yn rhannol yn ymwneud â chynnydd mewn gwerthiannau manwerthu ac o ganlyniad i fwy o ddefnydd mewn aelwydydd, a gynyddodd 0.4% yn ystod ail chwarter y flwyddyn.

Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach (FfBB) wedi gwneud y sylw bod cyflyrau economaidd cyffredinol y DU yn rhoi tanwydd ar dân pesimistaeth yn ail hanner 2018. Mae'r *Mynegai Busnesau Bach*¹ ar hyder busnesau'r DU wedi gostwng o +12.9 yn 2018Ch2 i -1.7 yn 2018Ch3, gyda hyder ymhlith yr hunangyflogedig yn disgyn i lefelau is nac erioed. Yn ogystal, canfu'r arolwg FfBB fod 27% o gwmnïau bach sy'n allforio yn y DU yn nodi bod gwerthiant rhyngwladol yn disgyn yn 2018Ch3, sy'n cynyddu o 19% o gwmnïau allforio bach yn yr un cyfnod yn 2017.

Er bod y FfBB wedi adrodd bod gostyngiad cyffredinol mewn hyder ymysg busnesau bach a chanolig yn y DU yn nhrydydd chwarter 2018, canfuwyd mai hyder busnes yng Nghymru oedd yr uchaf ymysg rhanbarthau a gwledydd y DU. Fodd bynnag, cofnododd cyfran uwch o gwmnïau a gafodd eu harolygu gynydd yn y costau cynhyrchu yng Nghymru (71%) nag yn y DU (65%). Mae hyn yn gysylltiedig yn rhannol â chostau llafur cynyddol, gyda dros 70% o fusnesau yng Nghymru yn disgwyl y bydd cyflogau yn cynyddu yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ym mis Awst 2018, pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr i gynyddu cyfradd y banc o 0.5% i 0.75%, a disgwylir i hyn effeithio ar dwf economaidd y DU yn ystod rhan olaf eleni, gyda'r cynnydd yn y cyfraddau hyn hefyd yn dylanwadu ar y costau o gyllid ar gyfer BBaCh yng Nghymru.

Mae'n ddefnyddiol adolygu mynegeion macro-economaidd eraill yn y DU sy'n dylanwadu ar y system bancio a chyllid, ac yn effeithio ar gyflenwad a chost cyllid allanol yng Nghymru. Yn bwysig yn hyn o beth yw'r ddyled a'r diffyg cyhoeddus sy'n effeithio ar iechyd y system fancio a chyllid, ac felly'r ochr cyflenwi cyllid yng Nghymru. Aeth dyled gyhoeddus y DU i lawr ychydig o 86.5% o Gynnyrch Twf Domestig yn 2017 i 84.3% o CTD (£1.8 triliwn) ar ddiwedd mis Awst 2018, sef oddeutu 24 pwynt canran uwchlaw gwerth cyfeirio UE dyled gyhoeddus (h.y. islaw 60% o CTD). Fe all gostyngiadau tymor hir dyled gyhoeddus ysgogi benthyg a benthyca, yn ogystal â rhoi bondiau.

Mae marchnadoedd llafur y DU wedi parhau i fod yn gryf gyda hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nhueddiadau'r farchnad lafur yng Nghymru. Mae data ar gyfer 2018Ch3 yn dangos bod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru (ar gyfer y rhai 16-64 oed) yn 74.8% (y DU 75.5%), i fyny o 72.4% yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae tyfiant enillion yn parhau i fod yn ddigonol. Mae cryfder parhaus y farchnad lafur mewn amgylchedd o ansicrwydd parhaus ymhlith rhannau dethol o'r gymuned fusnes yn ffenomen ddiddorol, ac mae'n awgrymu efallai na sylwi'r ar ac na chofnodi'r ymddygiad cadarn ar hyn o bryd mewn arolygon hunan-adrodd ar gyfer sefydliadau busnes mawr.

I grynhoi, mae chwarter canol 2018 yn datgelu rhywfaint o wrthgyferbyniad yn natblygiad mynegeion economaidd gwahanol ar gyfer Cymru a'r DU. Fodd bynnag, gallai cryfder presennol y farchnad lafur fod yn cuddio ansicrwydd gwirioneddol sy'n wynebu rhai sectorau nwyddau a gwasanaethau, ac yna rhagolygon tymor byr ar gyfer twf economaidd yng Nghymru. Mae'r ansicrwydd yn ymwneud â thwf

¹ Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai pwysol o'r ymatebion i'r cwestiwn: 'Gan ystyried eich perfformiad busnes cyffredinol, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o'i gymharu â'r tri mis blaenorol?' Mae'r cyfran o gwmnïau sy'n adrodd 'llawer gwell' yn cael y pwysidiadau a ganlyn: +2, ychydig yn well +1, tua'r un fath 0, ychydig yn waeth -1 a llawer gwaeth -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn "(FfBB, 2018: 8).

economaidd byd-eang a lleol wedi gwaethygu yn ystod 2018 oherwydd diffyg unrhyw gasgliadau sy'n dod i'r amlwg o'r trafodaethau Brexit, ac fe gyfrannodd hyn yn rhannol at israddio rhagamcaniadau twf economaidd diweddar ar gyfer yr economi byd-eang, ac ar gyfer Ewrop a'r DU trwy gyfrwng y Gronfa Ariannol Ryngwladol (CARh) yn ei Ragolygon Economaidd ar gyfer y Byd ym mis Hydref.

2.2 Y darlun o BBaCh yng Nghymru: deall y ffactorau sy'n llunio'r galw am gyllid

Mae'r dangosfwrdd cyntaf (Dangosfwrdd1, D1-D10) yn darparu gwybodaeth gryno ar natur y sector BBaCh yng Nghymru, a ffactorau dethol sy'n gyrru'r galw am gyllid allanol.

Mae D1 yn dangos dosbarthiad o BBaCh yng Nghymru yn ôl band maint, ac mae'n tynnu sylw at y nifer fawr o fentrau micro (hy sydd yn cyflogi 0-9 o bobl) ym mhoblogaeth y BBaCh ym 2017. O'r 252,000 o BBaCh yng Nghymru yn 2017, roedd 95.5% yn rai micro, o'i gymharu â 96.1% yn y DU. Fodd bynnag, mae microfusnesau yn gyfrifol am gyfran ychydig yn uwch o gyfanswm cyflogaeth a throsiant BBaChau yng Nghymru nag yn y DU. Mae hyn yn arwyddocaol gyda micro-gwmnïau yn meddu ar wahanol ofynion ariannol o'i gymharu â chwmnïau mwy.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018, gostyngodd nifer y bobl yng Nghymru sy'n hunangyflogedig ychydig, o'i gymharu â'r flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2018, i lawr o 208,400 i 204,200.

Nodweddir y BBaCh gan lefelau uchel o 'gyflogaeth perchennog yn unig', a oedd yn cyfrif am 76.8% o'r cwmnïau hyn yng Nghymru a 78.5% yn y DU yn 2017².

Cyfrannodd micro-fentrau 56% o gyflogaeth BBaCh a 42% o drosiant yng Nghymru yn 2017, tra bo' cwmnïau bach (gyda 10-49 o weithwyr sydd yn cyfrif am 3.7% o'r holl BBaCh chanolig yng Nghymru) yn cefnogi chwarter cyflogaeth BBaChau a 28% o drosiant. Ar ben arall y sbectrwm, roedd mentrau canolig (50-249 o weithwyr) yn cyfrif am lai nag 1% o'r cyfrif o fentrau BBaChau yng Nghymru yn 2017, ond roedd yn cefnogi bron i un rhan o bump o gyflogaeth BBaCh (19.3%) a bron i 30% o drosiant. Yn cyferbynnu hynny, mae busnesau canolig yn y DU yn cyfrif am gyfran is o gyfrif a throsiant cwmni BBaCh na'r rhai yng Nghymru, ond cyfran ychydig yn uwch o gyflogaeth BBaCh. Yn gyffredinol, yn 2017, roedd tua 800 o BBaCh ar gyfer pob 10,000 o drigolion yng Nghymru: 769 micro, 29 bach a 6 o faint canolig. Mae hyn yn cymharu â mwy na 1,000 o BBaCh ar gyfer pob 10,000 o bobl yn y DU: 972 micro, 33 bach a 5 o faint canolig.

Yn ôl yr *Arolwg Busnesau Bach* a gynhaliwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol yn 2016, cofnododd Cymru y gyfran leiaf o allforion BBaCh (14%), o'i gymharu â'r Alban (16%), Lloegr (19%) a Gogledd Iwerddon (29%), tra bo' cyfartaledd y DU yn 18%. Yn 2017, yn ôl yr un arolwg, gostyngodd cyfradd allforio BBaChau yng Nghymru i 10%. Gallai'r gyfran gymharol isel o allforion BBaCh fod yn gysylltiedig â strwythur diwydiannol gwahanol Cymru, gyda mwy o BBaCh mewn diwydiannau sydd â thueddiad uwch i wasanaethu galwadau domestig. Yn olaf, dangosodd yr *Arolwg*

² Mae'r band maint sero gweithwyr hefyd yn cynnwys cwmnïau gydag un gweithiwr. Mae hyn oherwydd bod pobl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ac yn cofrestru fel cwmni yn dod yn weithiwr cyflogedig i'r cwmni pan fydd yn cael ei sefydlu. Heb yr addasiad hwn, bydd nifer y busnesau sydd â dim gweithwyr yn newid a hynny dim ond o achos y newidiadau mewn statws cyfreithiol (sy'n gallu cael eu gyrru gan newidiadau mewn deddfau treth / atebolrwydd er enghraifft), yn hytrach na gan unrhyw newid go iawn yn yr economi. (StatsCymru)



Busnesau Bach hefyd mai Cymru oedd â'r gyfran leiaf o BBaChau a wnaeth elw (73%), yn llai na'r Alban (80%), Lloegr (83%) a Gogledd Iwerddon (86%).

Mae D2 yn crynhoi'r newidiadau yng nghyfrif BBaCh yng Nghymru, a chyflogaeth a throsiant cyfatebol rhwng 2012 (ar ôl adfer economi Prydain o'r argyfwng ariannol byd-eang) a 2017. Y grŵp micro BBaCh yng Nghymru brofodd y cynnydd mwyaf yn nifer y cwmnïau (18.8%) a throsiant³ (25.2%), ac fe gofnodwyd yr ail gynnydd mwyaf mewn cyflogaeth (14.6%). Roedd y cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth ymysg busnesau bach (19.2%), a welodd newid cadarnhaol hefyd yn nifer y cwmnïau (17.7%) a throsiant (23.9%). Gwelwyd cynnydd mewn mentrau maint canolig o ran y cyfrif ohonynt (7.1%), cyflogaeth (6.5%) a throsiant (10%) hefyd.

Nid yw poblogaeth BBaCh o meintiau gwahanol na newidiadau yn y niferoedd ym mhob band maint, wedi cael eu dosbarthu'n gyfartal ar hyd a lled Cymru. De-ddwyrain Cymru, sydd gan y gyfran uchaf o BBaCH eu maint: micro (41%), bach (44%), a chanolig eu maint (58%), tra bod gan Ogledd Cymru y gyfran leiaf o BBaCh. Fodd bynnag, darperir persbectif gwahanol wrth gyfrifo am ddwysedd busnes (cwmnïau fesul 10,000 o drigolion). Canolbarth a De Orllewin Cymru oedd â'r nifer uchaf o ficro-gwmnïau mewn perthynas â'i phoblogaeth, gyda 920 o fusnesau micro i bob 10,000 o drigolion, tra bo' Gogledd Cymru'n cofnodi'r dwysedd uchaf o gwmnïau bach (34 fesul 10,000 o drigolion). Yn olaf, roedd gan Dde Ddwyrain Cymru'r dwysedd uchaf mewn busnesau canolig, bron i 8 am bob 10,000 o drigolion, o'i gymharu â 7 yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a De Orllewin Cymru.

O ran y newid yn y cyfrif yn ôl rhanbarth a band maint rhwng 2012 a 2017 (gweler D3), roedd y cynnydd mwyaf yn nifer y micro-gwmnïau yng Ngogledd Cymru (22.8%), ac yna busnesau bach yn y Canolbarth a'r De Orllewin (19.2%), a mentrau canolig yn Ne Ddwyrain Cymru (9.5%). Y newid lleiaf oedd nifer y cwmnïau canolig yng Ngogledd Cymru (tua newid o 1% rhwng 2012 a 2017).

Mae BBaCH Cymru hefyd yn cael eu dosbarthu'n anwastad ar draws sectorau o'r economi. Mae D4 yn dangos dosbarthiad sectorau'r BBaCh yng Nghymru ynghyd â'r newid mewn cyfrif ers 2012. Unwaith eto, gallai'r gymysgedd sectorol o BBaCh ddylanwadu ar natur y sector BBaCh ar gyfer allforio. Roedd gan y sector cyfanwerthu / manwerthu, gwestai a gwasanaethau arlwyo, a gwasanaethau cyfathrebu y nifer uchaf o BBaCh gydag ychydig dros 60,000 o BBaCh yng Nghymru. Fodd bynnag, profodd y diwydiannau hyn y newid lleiaf yn y nifer o BBaChau yn y cyfnod 2012 i 2017 (7.5%). Cofnododd y gwasanaethau ariannol a busnes (dros 54,000 o fusnesau) y cynnydd mwyaf yn y cyfrif o BBaCh (bron i 30% ers 2012).

Mewn sectorau gwasanaethau dethol, mae'r cyfyngiadau cyfalaf ar gyfer dechrau cwmni yn is nag y maent mewn gweithgynhyrchu. Yn wir, roedd gan y diwydiannau cynhyrchu y cyfrif isaf o BBaChau yng Nghymru yn 2017 (ychydig dros 17,000 o gwmnïau), er bod y diwydiant hwn yn profi'r ail gynnydd mwyaf yn y cyfrif o BBaCh rhwng 2012 a 2017 (ar 26%). Gyda'r sector hwn yn agored yn uniongyrchol i farchnadoedd allforio tramor a risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit, bydd yn arbennig o bwysig monitro goroesiad a thwf BBaCh yn y diwydiannau cynhyrchu hyn dros y chwarteri nesaf.

Mae D5 yn cymharu newidiadau yn y cyfrif BBaCh yng Nghymru a'r DU. Ac eithrio amaethyddiaeth yn y DU, mae pob sector wedi cynyddu eu cyfrifon BBaChau dros y cyfnod 2012-2017. Er bod y twf yn y sectorau amaethyddiaeth, cynhyrchu ac adeiladu wedi bod yn uwch yng Nghymru na'r DU, mae twf mewn sectorau eraill wedi bod yn gryfach ar gyfer y DU yn gyffredinol nac yng Nghymru. Mae hyn yn

³ Noder fod trosiant mewn prisiau enwol heb unrhyw addasiad ar gyfer effeithiau chwyddiant

arbennig o amlwg ar gyfer y sector cyfanwerthu a manwerthu, gwestai ac arlwy, a'r sector gwasanaethau cyfathrebu (cynnydd o 23% yn y DU o'i gymharu â 9% yng Nghymru) ac iechyd ac addysg (29% yn y DU a 19% yng Nghymru).

Mae'r tueddiadau yn y cyfrif o BBaCh, cyflogaeth a throsiant yn cysylltu â newidiadau ehangach mewn dangosyddion allbwn tymor byr yn economi Cymru. Mae D6 yn datgelu mynegeion allbwn Cymru o ran cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau'r farchnad, ac mae'n dangos y symudiad chwarterol ym mhob un o'r mynegeion o 2012Ch1 i 2018Ch1.

Mae'r cynnydd yn allbwn mynegai diwydiant adeiladu Cymru yn arwyddocaol. Yn ystod y cyfnod o 2012Ch1 i 2016Ch3, roedd y mynegai adeiladu yng Nghymru yn perfformio'n well na'r mynegai adeiladu yn y DU. Nodweddir y mynegai gwasanaethau marchnad gan gynnydd cyson yng Nghymru dros y cyfnod a ddangosir yn D6, er ei fod yn dirywio ychydig yn chwarter cyntaf 2018. Dros yr un cyfnod, mae'r mynegai cynhyrchu hefyd wedi cynyddu, ond gyda newidiadau chwarterol mwy cyfnewidiol o'i gymharu â'r farchnad gwasanaethau. Er bod cwmnïau sydd â pherchenogaeth ryngwladol yn bennaf yn allbwn yn y sector hwn yng Nghymru, mae gan y duedd hon arwyddocâd i BBaCh Cymru naill ai'n uniongyrchol, neu trwy eu cysylltiadau cyflenwi i gwmnïau diwydiant cynhyrchu mwy o fewn neu y tu allan i Gymru.

Gyda'i gilydd, mae'r mynegeion yn dangos yn y flwyddyn i chwarter cyntaf 2018 allbwn sector preifat (ASP) yng Nghymru wedi cynyddu gan 0.1% (o'i gymharu â 2.4% yn y DU). Mae ASP yn cyfateb i tua 75% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros yng Nghymru.

Mae D7 a D8 yn archwilio cyfraddau genedigaethau a goroesi busnes, a newidiadau yn nifer y mentrau sy'n cael eu geni yng Nghymru. Cofnododd Cymru'r ail gyfradd geni busnes isaf ym 2016 ar draws rhanbarthau'r DU, sef 12.3% o fusnesau gweithgar, tra bod y gyfradd o enedigaethau yn y DU yn 14.6%. Llundain oedd â'r gyfradd geni busnes uchaf yn y DU ar 17.5% yn 2016. Ar ben hynny, cofnododd Cymru gyfradd marwolaeth busnes is na'r DU yn 2016 (10.5% yng Nghymru ac 11.6% yn y DU). Yn yr un modd, roedd gan Gymru yr ail newid lleiaf yn nifer y cwmnïau genedigaethol yn y DU rhwng 2012 a 2016 (46%), gyda'r Alban yn sylweddol is na'r gyfradd hon (ar 28%), tra bo'r newid yn y DU ar gyfartaledd yn 53%.

Cofnododd rhanbarth De Ddwyrain Cymru y gyfradd geni busnes uchaf (14.3%). Roedd gan y ddwy ranbarth arall gyfradd geni is na chyfartaledd Cymru gyfan (10.7% ar gyfer Gogledd Cymru a 9.7% ar gyfer Canolbarth a De Orllewin Cymru). Yn Ne Ddwyrain Cymru cafwyd cynnydd o 62% yn nifer y cwmnïau a anwyd rhwng 2012 a 2016. Yng Nghanolbarth a De Orllewin Cymru roedd y cynnydd cyfatebol mewn genedigaethau busnes yn 36%, gyda chynnydd o 26% yng Ngogledd Cymru.

Mae rhanbarthau Cymru hefyd yn cael eu nodweddu gan wahaniaethau sylweddol yn nwysedd y cwmnïau sy'n cael eu geni. Cofnodwyd 42 o gwmnïau newydd yn Ne Ddwyrain Cymru fesul 10,000 o drigolion yn 2016, o'i gymharu â 36 o gwmnïau newydd yng Ngogledd Cymru, a 34 yn y Canolbarth a De Orllewin Cymru. O'i gymharu, roedd 117 o gwmnïau newydd fesul 10,000 o drigolion yn rhanbarth Llundain yn 2016. Ar draws y DU, mae ffactorau fel lefelau sgiliau poblogaeth, dosbarthiad maint y

cwmnïau presennol, presenoldeb crynadau mawr, ac yn bwysig mae argaeledd gwahaniaethol cyfalaf ar draws rhanbarthau.⁴

Dangosir dymeg o ran cyfraddau geni a marw BBaCh yng Nghymru yn nhermau cyfraddau goroesi tair blynedd (D8). Mae rhywfaint o amrywiad mewn cyfraddau goroesi ar draws gwahanol rannau o'r economi ranbarthol, ond mae'r ffigurau'n dangos bod 61% o'r mentrau a ddechreuodd yng Nghymru yn 2013 yn dal i fod yn weithgar dair blynedd ar ôl iddynt gael eu geni. Mae cyfraddau goroesi tair blynedd yn is yng Ngogledd Iwerddon (57%) a Llundain (58%), ond yn uwch yn yr Alban (62%). Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer mentrau'r DU yn debyg i'r cyfraddau cyffredinol yng Nghymru. Mae dadansoddiad o fentrau a anwyd yn 2011 yn dangos bod y gyfradd goroesi bum mlynedd yn gostwng i 43.2% yng Nghymru, o'i gymharu â 44.1% ar gyfer y DU.

Mae D9 yn darparu gwybodaeth o'r *Monitrydd Cyllid BBaCh 2017* ar gyfran y BBaCh sy'n defnyddio cyllid allanol (boed hynny ar ffurf gorddrafftiau, cardiau credyd a benthyciadau). Yn seiliedig ar ddata arolwg blynyddol o gyfweiliadau â BBaCh ym 2017, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod 41% o BBaChau Cymru wedi defnyddio darpariaethau o'r fath (naill ai nawr neu yn y gorffennol). Roedd y gyfradd hon yn debyg yn Lloegr, ond ychydig yn uwch yn yr Alban (43%) ac yn llawer uwch yng Ngogledd Iwerddon (53%).

Datgelodd *Monitrydd Cyllid BBaChau 2017* hefyd fod gan 40% o BBaChau Cymru yr awydd i dyfu. Mae hyn yn cymharu â 32% yn yr *Arolwg* blaenorol (a gynhaliwyd yn 2016), a dyma'r gyfradd isaf ar draws gwledydd y DU (D10). Dangosodd yr *Arolwg* hefyd fod 53% o BBaCh yng Nghymru yn fodlon cynnal gweithgarwch ar y lefelau presennol (o gymharu â 54% yn yr arolwg blaenorol), sef yr uchaf yn y DU. Mae'r data hwn yn dangos uchelgeisiau twf isel llawer o berchnogion BBaCh yng Nghymru, ac mae hyn yn ffactor sy'n dylanwadu ar nifer y mentrau bach a micro sy'n datblygu i fod yn gwmnïau canolog, ond hefyd yn ffactor sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ofynion agregol / cyffredin am arian i dyfu.

3. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid

Mae'r rhan hon (Dangosfwrdd 2, D11-D19) yn canolbwyntio ar ffactorau sy'n effeithio ar ddarparu cyllid i BBaCh yng Nghymru. Cyn rhoi sylwadau ar wybodaeth ar lefel Cymru, mae'r graffiau cyntaf yn Dangosfwrdd 2 yn darparu cyd-destun pwysig ar dueddiadau ehangach y DU.

Yn ôl D11, roedd cyfanswm y benthycia banc, y modd mwyaf blaenllaw o gyllid allanol i BBaCh y DU, wedi cyrraedd llwyfandir ar £59 biliwn yn 2016, wedi iddo dyfu gan 55% ers 2012. Bu gostyngiad bach mewn benthycia banc yn 2017 i £57 biliwn. Disgwylir i'r gostyngiad hwn barhau yn 2018, wrth ystyried y data yn D12 sy'n dangos tuedd sy'n gostwng yn y gyfradd twf misol o fenthyciadau a ddarperir i BBaChau'r DU. Mae'r cynnydd yn y gost o fenthyciadau banc wedi effeithio ar y tueddiadau yng nghyfraddau benthyciadau twf blynyddol i BBaCh eu maint, gyda chyfraddau llog cyfartalog i BBaCh sy'n llwyddiannus wrth ennill benthyciadau yn cynyddu o 2.91% ym mis Gorffennaf 2017 i 3.15% ym mis Gorffennaf 2018, er bod rhywfaint o amrywiad o gwmpas y ffigurau cyfartalog hyn. Yn wir, mae

⁴ Yr astudiaeth gyfeirio glasurol yma oedd Keeble and Walker (1994) *New Firms, Small Firms and Dead Firms: Spatial Patterns and Determinants in the United Kingdom*. Astudiaethau Rhanbarthol, 28, 411-427. Ymchwil gyfyngedig iawn sydd wedi digwydd ers hynny yn canolbwyntio ar benderfynyddion cyfraddau geni busnes ar draws gwahanol rannau o Gymru.

adroddiad diweddar y FfBB, sef *Mynd am Dwf / Going for Growth*⁵, yn awgrymu bod dros ddwy ran o dair o BBaCh sy'n gwneud cais am gyllid allanol yn cael cynnig cyfraddau sy'n fwy na 4%.

Datgelodd *Arolwg Amodau Credyd Banc Lloegr 2018Ch2*⁶ ganlyniadau cyferbyniol ynghylch y cyflenwad credyd i BBaChau'r DU, a gynyddodd yn 2018Ch2, ar ôl i dri chwarter yn dilyn ei gilydd o bethau yn aros yn eu hunfan ddigwydd yn ystod y cyfnod 2017Ch3 i 2018Ch1. Yn ogystal, cynyddodd y galw am greddydd gan BBaChau'r DU bron i 28% yn 2018Ch2 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, ar ôl i gyfnod o bethau yn aros yn ei unfan yn 2018Ch1, twf gwan o 1.7% yn 2017Ch4, a gostyngiad sylweddol o -22% yn 2017Ch3.

Mae cyllid asedau a'r llif o sefydliadau ecwiti preifat ill dau wedi bod yn cynyddu'n raddol yn y cyfnod hyd at 2017, gyda chyfraddau twf cyfartalog o 8.8% a 33.9% yn y drefn honno. Er bod buddsoddiad ecwiti preifat a llifoedd benthyg cyfoedion yn gyfran lawer llai o gyllid allanol i BBaCh, mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol o £1.73 biliwn yn 2013 i £6.25 biliwn yn 2017. Bydd y duedd hon yn reit bwysig i BBaCh Cymru sy'n ceisio cyllid allanol.

Mae cyfran Cymru⁷ o fenthyciadau banciau cenedlaethol (Prydain Fawr yn y fan hyn) i BBaChau wedi amrywio rhwng tua 4.5% a 4.7% yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf (D13). Yn seiliedig ar y ffigurau chwarterol diweddaraf, roedd cyfran gyfartalog Cymru o gyfanswm benthyca banciau Prydain i BBaChau yn 4.6%. Disgynnodd y gyfran o fenthycia i BBaChau Cymru ychydig yn y cyfnod 2017Ch3-Ch4. Disgynnodd benthyca banciau i BBaCh Prydain o £89.2 biliwn yn 2017Ch3 i £87.1 biliwn yn 2017Ch4, (-2.3%); disgynnodd benthyca banciau i BBaCh yng Nghymru o £4.12 biliwn yn 2017Ch3 i £3.95 biliwn yn chwarter olaf 2017 (-4.1%). Yn gyffredinol, gostyngodd swm y benthyca banciau i BBaCh yng Nghymru rhwng 2016Ch2 a 2017Ch4.

Yn ôl *Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2017/18*⁸ (tud 23), y gyfran Gymreig o werth cyfleusterau benthyca Prydain a gymeradwywyd yn 2017 oedd 5%, yr ail ranbarth isaf ym Mhrydain, ar ôl y Gogledd Ddwyrain. Yn ogystal, wrth edrych ar ddisbarthiad benthyca banciau yn y DU o'i gymharu â'r boblogaeth fusnes, roedd Cymru, ochr yn ochr â De Orllewin, Gogledd Ddwyrain Lloegr a'r Alban, â chyfran uwch o werth a chyfaint benthyca banc.

Mae D14 yn dangos cyfran gyfartalog benthyca banciau i BBaCh ar hyd a lled Cymru rhwng 2017Ch1 a 2017Ch4. Roedd mwy na hanner y cyfanswm benthyciadau i ardaloedd cod post Caerdydd ac Abertawe, gydag ychydig dros 21% i ardal cod post Llandudno. Dylid nodi ei bod yn anodd tynnu casgliadau cadarn o'r data hwn oherwydd problemau gyda chyfateb gweithgarwch economaidd gydag ardaloedd cod post, gyda rhai ardaloedd cod post yn croesi ffiniau awdurdodau lleol. Mae D14 yn cynnwys amcangyfrif o fenthycia banciau i BBaCh gyda chod post Yr Amwythig, ond wedi eu lleoli yng Nghymru (er enghraifft, yn cynnwys y rhai yn Y Drennewydd ac Aberystwyth).

Mae cyfleusterau gorddrafft yn ffynhonnell bwysig fawr o gyllid i BBaCh. Mae D15 yn dangos bod gwerth balansau gorddrafft yn gyffredinol yn gostwng, gan ostwng o £660 miliwn yn 2012Ch1 i £453 miliwn yn 2017Ch4, ond cynyddodd i £489 miliwn yn 2018Ch1 ac yna i £535 miliwn yn 2018Ch2. Mae'r

⁵ FfBB (2018). <https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/going-for-growth-final.pdf?sfvrsn=0>

⁶ Mae'r data ar gael o: <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/credit-conditions-survey/2018/2018-q2.pdf?la=en&hash=E471699A6946CB8E72B4D0782BCFC056154669AB>

⁷ Mae'r data hwn yn eithrio busnesau bach a chanolig yng Nghymru gyda chod post Amwythig (SY).

⁸ Data ar gael o: <https://www.british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2018/02/Small-Business-Finance-Markets-2018-Report-web.pdf>

cynnydd diweddar hwn yn gysylltiedig â thwf yng ngwerth cyfleusterau gorddrafft a gymeradwywyd sydd wedi cynyddu'n raddol ers 2017Ch2, o £46 miliwn i £76 miliwn yn 2018 Ch2.

Mae cyllid allanol i BBaCh yng Nghymru hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf menter a ffynonellau ecwiti preifat. Mae ymchwil diweddar gan Beauhurst ar dueddiadau cyllid ecwiti i 2018Ch3 yn dangos bod Cymru, ynghyd â Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gogledd Ddwyrain Lloegr yn cynnwys niferoedd cymharol isel o gytundebau a symiau a fuddsoddwyd mewn cytundebau yn nhri chwarter cyntaf 2018⁹ (o'i gymharu â maint eu heconomïau).

Cyllid arall yw'r un sy'n deillio o unrhyw ffynonellau eraill ar wahân i'r banciau, y wladwriaeth, a chyllid mewnol. BBaCh Cymru sydd â'r tueddiad isaf i gymryd cyllid amgen yn y DU. Bydd pa mor bell y mae hyn yn adlewyrchu gwendid yn y galw gan BBaChau, neu ddiffygion yn yr ochr gyflenwi lleol ar gyfer y ffynonellau cyllid hyn yn destun ymchwil DEC yn y dyfodol. Yn ôl *Arolwg Busnesau Bach Hydredol y DU 2017*, dim ond 6% o berchnogion BBaCh Cymru sy'n defnyddio cyllid amgen, o'i gymharu ag 11% yn yr Alban, 10% yn Lloegr, ac 8% yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r FfBB wedi awgrymu bod busnesau llai yn dod yn fwy hyderus wrth asesu gwahanol opsiynau cyllid, ond bod diffyg ymwybyddiaeth, ac arwyddion addas yn cyfeirio at yr opsiynau cyllido amgen sydd ar gyfer BBaCh¹⁰.

Yn ôl y Gymdeithas Cyfalaf Menter Prydeinig (CCMP)¹¹, cafodd 52 o gwmnïau yng Nghymru fuddsoddiad ecwiti yn 2017, cynnydd bach ar 2016 (D16). Yn y DU, derbyniodd cyfanswm o 817 o gwmnïau fuddsoddiad yn 2017 o'i gymharu â 728 o gwmnïau yn 2016. Cynyddodd y swm buddsoddi yng Nghymru o £49 miliwn yn 2016 i £57 miliwn yn 2017, gyda Banc Datblygu Cymru yn chwarae rhan arwyddocaol yn hynny o beth. Buddsoddiad y Banc Datblygu £14 miliwn yn uniongyrchol mewn ecwiti yn y flwyddyn galendr hyd at Ragfyr 2017, gyda throsoliad cysylltiedig o'r sector breifat o £27 miliwn. Hefyd, nododd y CCMP fod BBaCh Cymru yn cyfrif am 1% o gyfanswm buddsoddiad cyfalaf menter y DU yn 2017, o'i gymharu â chyfran 61% ar gyfer ardal y De Ddwyrain a Llundain. Roedd llawer o'r buddsoddiad cyfalaf menter ac ecwiti preifat yng Nghymru yn gysylltiedig â chwmnïau yn y sectorau TGCh a biotechnoleg a gofal iechyd (D17), sef tua 82% o'r cyfanswm buddsoddiad yn 2017.

Mae lefel a strwythur y benthyca i BBaCh yn gysylltiedig yn gryf â'u risg credyd. Mae D18 a D19 yn rhoi trosolwg o'r risg hwn. Nid yw gwybodaeth risg fanwl ar gael ar gyfer pob BBaCh yng Nghymru, gan adlewyrchu problemau argaeledd data. Fodd bynnag, mae'r tabl yn cyflwyno gwybodaeth gan dros 60,000 o BBaCh yng Nghymru¹². Mae'r dosbarthiadau risg a ddefnyddir yn amrywio o Risg Uchel i Ddiogel, yn deillio o gyfrifyddu a gwybodaeth arall sydd ar gael i asiantaethau risg credyd. Mae'n debyg y bydd BBaCh a ddosberthir yn y categori Risg Uchel yn dod yn ansolfent o fewn blwyddyn ac ni fyddant yn gallu parhau i fasnachu heb gamau adfer sylweddol. Mae'r categori Rhybudd yn cynnwys risg sylweddol o fethiant, gyda mentrau yn y categori hwn fel arfer bedair gwaith yn fwy tebygol o fethu â'r rhai yn y categori Cyffredin.

Mae D18 yn dangos bod y gyfran o BBaCh yng Nghymru a amcangyfrifir fel rhai mewn Risg Uchel ar ddiwedd mis Medi 2018 yn 4.1%, ac fe amcangyfrifir bod y gyfran o BBaChau yn y categori Rhybudd

⁹ Gweler Beauhurst 2018. <https://about.beauhurst.com/blog/equity-investment-update-q3-2018/>

¹⁰ FfBB (2018). Going for Growth / Mynd am Dwf. <https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/going-for-growth-final.pdf?sfvrsn=0>

¹¹ Data ar gael o: <https://www.bvca.co.uk/Portals/0/Documents/Research/Industry%20Activity/BVCA-RIA-2017.pdf?ver=2018-07-05-190000-180×tamp=1530813602675>

¹² Data ar gael o: <https://fame.bvdinfo.com/version-2018327/Home.serv?product=fameneo&setlanguage=en>

yn 73%. Yn ddiddorol, mae'r ddau ffigur hyn yn dangos cynnydd o'r rhai a adroddwyd yn ACh 1 ar gyfer Mehefin 2018, sef 3.9% a 70% yn y drefn honno.

Mae D19 yn dangos sut mae'r cyfrannau o BBaCh yn y gwahanol categorïau risg yn amrywio yn ôl sector. Yn y chwarter sy'n dod i ben ym mis Medi 2018 cynyddodd y gyfran o BBaChau yn y categori Rhybudd ym mhob grŵp diwydiant. Mae'r sectorau sydd â'r gyfran fwyaf o BBaCh yn y categorïau Cyffredin, Sefydlog neu Ddiogel yn cynnwys cemegau ac ati, a chynhyrchion metel a haearn.

4. Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Mae'r dangosfwrdd terfynol (Dangosfwrdd 3, D20-D31) yn crynhoi buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru hyd yma, gyda dadansoddiad o fuddsoddiadau yn ôl math, sector, lleoliad, Cronfa a maint y busnes. Gyda'i gilydd mae'r wybodaeth yn rhoi trosolwg o weithgarwch buddsoddi o fewn y cyddestun galw a chyflenwi a ddarparwyd yn gynharach.

Mae'r pum panel cyntaf yn Nangosfwrdd 3 yn dangos ffigurau graddfa a dosbarthiad buddsoddiad Banc Datblygu Cymru hyd yn hyn, gyda ffigurau cronus yn cwmpasu cyfnodau blwyddyn ariannol 2001/2 Ch1 i 2018/19 Ch2. Yr oedd cyfanswm y buddsoddiad hyd 2018/19 Ch2 bron yn £540m. Mae D20 yn dangos bod benthyciadau yn cyfrif am 52% o'r cyfanswm hwn, gyda buddsoddiadau ecwiti yn cynrychioli tua 28%, a buddsoddiadau mesanin fel yr 20% sy'n weddill¹³.

Mae D21 yn darparu'r un dadansoddiad yn ôl y math o fuddsoddiad, ond mae'n dangos cyfanswm y mentrau a'r swyddi a gefnogir dros y cyfnod hyd at ail chwarter blwyddyn ariannol 2018/19. Mae yna fwy na 3,000 o gwmnïau sydd wedi derbyn benthyciadau hyd yn hyn, sydd yn llawer mwy na'r rhai sy'n derbyn mathau eraill o fuddsoddiad, gyda'r benthyciadau hyn yn gysylltiedig â gweithgaredd sydd wedi creu cyfanswm amcangyfrifedig o dros 11,600 o swyddi, gan ddiogelu bron i 19,000 o swyddi.

Mae D22 yn dangos bod y sector gweithgynhyrchu wedi bod yn sector sydd wedi derbyn y prif fuddsoddiadau gan Fanc Datblygu Cymru, ac yna'r sectorau adeiladu, gwybodaeth a chyfathrebu ac yna gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Nid yw'r patrwm buddsoddi hwn yn cyfateb i ddsbarthiad cyffredinol BBaCh yng Nghymru (gweler D4), lle'r oedd y sectorau cynhyrchu yn cynnwys y nifer isaf o BBaChau, a swyddi cysylltiedig¹⁴ cymharol isel. Fodd bynnag, mae gan yr un sectorau cynhyrchu hyn yn aml ofynion cymharol uwch am gyfalaf er mwyn manteisio ar ragolygon twf.

Dangosir dosbarthiad daearyddol y buddsoddiad hyd yn hyn yn D23. Fel y nodwyd yn gynharach, mae benthyciadau yn ffurfio mwyaf y buddsoddiadau ym mhob lleoliad, gyda rhanbarth y De Ddwyrain yn cyfrif am y gyfran fwyaf o bob math o fuddsoddiad. Yn yr un modd, rhanbarth De Ddwyrain Cymru gafodd y buddsoddiad uchaf fesul 10,000 o drigolion (£2 filiwn), ac yna Canolbarth a De Orllewin Cymru (£1.44 miliwn) a Gogledd Cymru (£1.33 miliwn). Mae D24 yn darparu mwy o fanylion am arian a fuddsoddiwyd ac sydd ar gael yn ôl Cronfeydd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2017/18. Y gronfa weithredol fwyaf yw Cronfa Busnes Cymru a gyd-ariennir gan yr UE sydd wedi buddsoddi £66 miliwn,

¹³ Yn dilyn adolygiad o'r perfformiad hyd yma ar gyfer ei Gronfa fuddsoddi fwyaf, Cronfa Busnes Cymru â gefnogir gan yr UE, mae Banc Datblygu Cymru wrthi'n symud o'r dosbarthiad buddsoddi 'mesanin'.

¹⁴ Nid oedd gan ddata buddsoddi o'r cronfeydd cynharaf ddull integredig o gofnodi gwybodaeth sectoraidd oherwydd gofynion adrodd sectoraidd. O ganlyniad, nid oedd gan ryw 13% o set data Banc Datblygu Cymru wybodaeth sectoraidd. Nid yw'r buddsoddiad, swyddi a grëwyd a swyddi a ddiogelwyd gan y mentrau hyn wedi'u cynnwys yn D22.

tra bod bron i £350 miliwn wedi'i fuddsoddi gan Gronfeydd 'Wedi ymddeol', nad ydynt bellach yn buddsoddi.

Mae'r setiau data nesaf (D25-D28) yn dangos gweithgarwch buddsoddi mwy diweddar. Cafwyd cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad benthyciadau newydd yn 2018/19 Ch2 o'i gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (D25). Mae'r duedd ar i fyny hon i'w weld ymhellach yn D26. Roedd twf buddsoddi ecwiti yn gryf yn y cyfnod 2017/18 Ch3-Ch4, ond gostyngodd buddsoddiad newydd yn 2018/19 Ch1. Mae hwn yn batrwm buddsoddi nodweddiadol, gyda Ch4 yn tueddu i fod y cyfnod buddsoddi prysuraf, wedi'i gysylltu â chwmnïau sy'n chwilio am fuddsoddiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn gyffredinol, bydd llai o alw am fuddsoddi yn Ch1. Mae D25 a D26 yn dangos tueddiadau sy'n dirywio mewn buddsoddiad mesanin dros y cyfnod a ddangosir, yn wahanol i dwf cadarnhaol y buddsoddiadau hyn fel y nodwyd yn ACh1¹⁵. Fel y nodwyd, mae'r tueddiadau tymor byr hyn mewn mathau o gyllid yn gyfnewidiol, a dylanwadir ar hyn yn drwm gan gymeradwyaeth benthyciad a buddsoddiad unigol mewn unrhyw gyfnod penodol.

De Ddwyrain Cymru, sydd â'r gyfran uchaf o boblogaeth fusnes Cymru, ac mae'n parhau i gyfrif am y gyfran fwyaf o fuddsoddiad newydd (D27), tra bo' buddsoddiadau i gwmnïau yng Nghanolbarth a De Orllewin Cymru wedi rhagori ar y rhai i gwmnïau yng Ngogledd Cymru ers dechrau'r flwyddyn ariannol gyffredol (D27). Mae buddsoddiad i bob un o'r tri rhanbarth ar draslun uwch yn unol ag ymrwymiad Banc Datblygu Cymru i gynyddu ei fuddsoddiad blynyddol i £80 miliwn y flwyddyn o fewn 5 mlynedd o'r lansiad (Hydref 2017).

Mae D28 yn dangos buddsoddiad diweddar yn ôl sector detholedig. Mae hyn yn dangos symiau (£ m) o fuddsoddiad cyffredinol yn ystod y pedwar chwarter i 2018/19 Ch2. Mae'r buddsoddiad wedi bod ar ei uchaf yn y sector adeiladu (wedi iddynt gael buddsoddiad o £26 miliwn), ac yna gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (£8.3 miliwn), gweithgynhyrchu (£8.1 miliwn) ac wedyn masnach cyfanwerthu a masnach manwerthu (£7.4 miliwn).

Dangosir gweithgaredd buddsoddi diweddar gan faint y cwmni yn siart D29. Yn y pedwar chwarter i Ch2 2018/19, roedd buddsoddiad mewn micro-fentrau yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o arian yn 43%, gyda chwmnïau bach yn cyfrif am 36% o'r cronfeydd buddsoddi, a 19% o fuddsoddiadau i fusnesau canolig. Roedd tua 1.5% o werth buddsoddiadau i fentrau mawr.

Dangosir safbwynt hanesyddol o fuddsoddiadau, nifer y mentrau a'r swyddi a gefnogir yn D30 a D31. Mae D30 yn tynnu sylw at yr amrywiadau mewn buddsoddiad newydd a throsoliad sector breifat, sy'n dilyn patrwm tebyg: yn dirywio ar ôl argyfwng ariannol 2007, ac yn gwella ar ôl 2012. Mae D31 yn dangos effaith tymor byr Cronfeydd wrth greu a diogelu swyddi. Yn debyg i D30, mae'r patrwm o swyddi a grëwyd wedi bod yn anwadal dros y cyfnod ers 2001.

Mae yna gyfradd is o swyddi wedi cael eu creu ac wedi eu diogelu yn ôl pob cwmni a gefnogwyd yn 2018, o'i gymharu â'r rheini yn y flwyddyn flaenorol, a all fod yn rhannol yn ganlyniad i amodau tynn y farchnad lafur a nodwyd yn gynharach. Fodd bynnag, yn ystod dau chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2018/19, mae nifer y cwmnïau sy'n derbyn buddsoddiad yn uchel (188) ar y pwynt hanner blwyddyn hwn, gan awgrymu mai dyma fydd y 5ed flwyddyn yn olynol o dwf yn nifer y busnesau sy'n derbyn buddsoddiad gan y Banc Datblygu. Crynhowyd gwerth y buddsoddiadau newydd a wnaed gan

¹⁵ Gweler troednodyn 13

Fanc Datblygu Cymru yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol 2018/19 i dros £33 miliwn, gyda'r rhain yn gysylltiedig â chreu bron i 330 o swyddi ac fe ddiogelwyd bron i 930 o swyddi pellach.

5. Casgliadau

Disgwylir i'r ansicrwydd a'r ansefydlogrwydd economaidd cynyddol gael rhywfaint o ddylanwad ar ofynion busnes am gyllid. Mae'r rhagolygon araf o dwf economaidd yn y tymor byr i ganolig yn awgrymu y gallai BBaCh yng Nghymru ddisgwyl amodau economaidd mwy heriol yn y misoedd nesaf, gan adlewyrchu'r besimistiaeth sydd wedi parhau ymysg busnesau bach y DU yn nhrydydd chwarter 2018, a'r uchelgeisiau twf isel ymhlith BBaCh Cymru.

Mae'r ail ACh hwn yn darparu tystiolaeth o amrywiadau cryf yn nwysedd BBaCh a thwf sylweddol yn nifer y BBaCh yng Nghymru mewn gwasanaethau a chynrychiadau ariannol a busnes rhwng 2012 a 2017. Ar ben hynny, cofnododd Cymru'r ail gyfradd eni isaf yn y DU yn 2016, gyda De Ddwyrain Cymru'n gweld y gyfradd geni uchaf yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae'r niferoedd uchel o fentrau Cymreig (a'r DU) sy'n methu o fewn eu tair blynedd gyntaf o fodolaeth yn gysylltiedig â'r canfyddiadau ar gyfraddau risg credyd BBaCh yng Nghymru, sy'n dangos nifer fawr a chynyddol o fentrau wedi'u categoreiddio yn y categorïau Risg Uchel a Rhybudd.

Yn y cyd-destun hwn, mae BBaCh Cymru yn gwneud defnydd cymharol isel o gyllid allanol. Bu gostyngiad mwy yn y benthyca banc i BBaCh yng Nghymru nac ym Mhrydain, gan arwain at ddirywiad cyffredinol yn y gyfran yng Nghymru mewn benthyca banciau yn y DU yn y data diweddaraf. Er bod BBaCh yng Nghymru wedi cael y duedd amcan isaf tuag at gyllid amgen yn y DU, cynyddodd nifer y cwmnïau sy'n derbyn cyllid cyfalaf a chyllid ecwiti, ynghyd â'r swm buddsoddi yn ystod 2017.

Yn ystod hanner cyntaf 2018/19, cafodd 188 o fentrau fuddsoddiadau gan y Banc Datblygu Cymru o dros £33m, gyda hyn yn gysylltiedig â £40m o werthiant sector preifat, a bron i 1,300 o swyddi wedi cael eu creu neu eu diogelu.

Yn ystod y broses o gwblhau ACh1 ac ACh2 mae nifer o gwestiynau ymchwil newydd wedi codi a bydd nifer o'r rhain yn cael eu hymchwilio fel rhan o raglen ymchwil DEC yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys ffactorau sy'n effeithio ar y galw a'r cyflenwad ar gyfer cyllid allforio yng Nghymru, sut y gallai newid strwythurol yng Nghymru effeithio ar y gofynion ar gyfer benthyca, a dealltwriaeth well o glystyrau ecwiti yng Nghymru.

6. Bylchau data sy'n dod i'r amlwg

Mae'r dadansoddiad yn ACh1 ac ACh2 wedi nodi materion yn nhermau argaeledd data, sy'n herio ymchwilwyr i ddefnyddio ffynonellau newydd ac arloesol, gyda rhai ohonynt yn dod ar gael trwy bartneriaid yng Nghampws Gwyddoniaeth Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

O gofio'r nifer fawr o gwmnïau sydd â 0-1 o weithwyr, mae gwybodaeth economaidd mewn perthynas â'r cwmnïau lleiaf yng Nghymru yn ymddangos yn brin, gyda'r cwmnïau lleiaf hyn yn aml yn llai tebygol o lenwi arolygon, neu rwydweithio gyda sefydliadau sy'n casglu ystadegau'r diwydiant. Mae'r categori 'micro' a ddefnyddir yn gyffredin fel arfer yn cynnwys cwmnïau sy'n cyflogi rhwng 0-9 o bobl, er bod cyflogaeth gyfartalog cwmnïau yn y categori hwn rhwng 1 a 2 o weithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn.




Mae'r diddordeb presennol ym masnach Cymru yn datgelu bylchau mewn data o ran prinder gwybodaeth ar faint o BBaCh sy'n allforio dramor, y symiau dan sylw a'r cyrchfannau. Mae diddordeb



cryf ym mhatrymau masnach Cymru dramor, ac er bod cwmnïau mawr yn dominyddu hyn ar hyn o bryd, byddai'n ddefnyddiol cael mwy o ddata ar batrymau masnach tramor cwmnïau llai Cymru. Yn gysylltiedig â hyn, mae prinder data cyffredinol ar fasnach BBaCh yng Nghymru gyda gweddill cwmnïau'r DU. Mae hyn yn bwysig o ran gwella'r ddealltwriaeth gyffredinol o gysylltiadau BBaCh â chwmnïau a sectorau eraill o fewn economi ehangach y DU, ac felly eu rhagolygon twf yn y dyfodol, ond hefyd yn fwy penodol oherwydd fe all BBaCh detholedig allforio i cwmnïau arall yn y DU sydd wedyn yn allforio dramor.


7. Dangosfyrddau Tachwedd 2018

7.1 Dangosfwrdd 1: Y darlun o BBaCh yng Nghymru







D4: Nifer y BBaCh yng Nghymru (2017) a % Newid yn ystod 2012-2017







D5: Newid yn y Cyfrif o BBaChau yn y DU a Chymru yn ôl Sector (% , 2012-2017)



D6: Mynegeion Allbwn Cymru: Tueddiadau 2012Ch1-2018Ch1 (2016=100)













7.2 Dangosfwrdd 2: Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid






D14: Benthycia Banc i Fusnesau Bach a Chanolig: Ardaloedd Côt Post fel Cyfran o Fenthyciadau Cymru Gyfan (Cyfartaledd yn ystod 2017Ch1-2017Ch4)




D15: Gwerthoedd Cyfleusterau Balansau a Gorddrafft Gordaliedig a Gymeradwywyd ar gyfer BBaChau yng Nghymru (£m, 2012Ch1-2018Ch2)







D16: Nifer y Cwmnïau yng Nghymru sy'n Derbynn Buddsoddiad gan Aelodau o Gymdeithas Cyfalaf Menter Prydain (CCMP) a Swm y Buddsoddiad (£m)



D17: Buddsoddiad CCMP yng Nghymru yn ôl y Sector (2017)




D18: Cyfran y BBaChau yn ôl Risg Credyd yng Nghymru (% Medi. 2018)







D19: Risg Credyd BBaCh Cymru yn ôl y Sector (% ym mhob Categori Risg, Medi. 2018)




7.3 Dangosfwrdd 3: Banc Datblygu Cymru






D22: Buddsoddiad Cronnus a Swyddi yn ôl Sector Dethol yn 2018/19 Ch2




D23: Buddsoddiad Cronnus ar gyfer 2018/19 Ch2 yn ôl Lleoliad (£m)








D24: Buddsoddi Cronnus Banc Datblygu Cymru i 2018/19 Ch2 yn ôl y Gronfa (£m)




D25: % Newid mewn Buddsoddiad Newydd, 2018/19 Ch2 o'i gymharu â 2017/18 Ch2










D28: Cyfanswm Buddsoddiad Newydd, 2017/18 Ch3 - 2018/19 Ch2 (£m)



D29: Buddsoddiad yn ôl Maint Busnes (% , 2017/18 Ch3 i 2018/19 Ch2)







Ffynonellau data:

D1 & D2: StatsCymru. Ar gael o: <https://StatsCymru.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizeband-measure> (diweddariad nesaf: mis Tachwedd 2018)

D3: StatsCymru. Ar gael o: <https://StatsCymru.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-sizeband-area-year> (diweddariad nesaf: mis Tachwedd 2018)

D4 & D5: StatsCymru. Ar gael o: <https://StatsCymru.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-industry-sic2007-sizeband-area> (diweddariad nesaf: mis Tachwedd 2018)

D6: StatsCymru. Ar gael o: <https://StatsCymru.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Economic-Indices/Indices-of-Production-and-Construction/welshindicesofproductionandconstruction-by-section-year> (diweddariad nesaf: mis Ionawr 2019)

A: <https://StatsCymru.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Economic-Indices/Index-of-Market-Services/indexofmarketservices-by-year-area> (diweddariad nesaf: mis Ionawr 2019)

D7: StatsCymru. Ar gael o: <https://StatsCymru.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/businessbirths-by-area-year> (diweddariad nesaf: mis Tachwedd 2018)

D8: Demograffeg Busnes, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyreferencetable> (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D9 & D10: Monitrydd Cyllid BBaCh BDRC, Adroddiad Blynnyddol 2017. Ar gael o: https://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2018/09/BDRC_SME_FM_Annual_Report_2017.pdf (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D11: Banc Busnes Prydain (2018). Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2017/18. Ar gael o: <https://www.british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2018/02/Small-Business-Finance-Markets-2018-Report-web.pdf> (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D12: Data Banc Lloegr, BBaCh. Ar gael o: <https://www.bankofengland.co.uk/boeapps/database/fromshowcolumns.asp?Travel=NixAZxSUx&FromSeries=1&ToSeries=50&DAT=RNG&FD=1&FM=Jan&FY=2010&TD=11&TM=May&TY=2025&FNY=Y&CSVF=TT&html.x=66&html.y=26&SeriesCodes=CFMZ6HQ&UsingCodes=Y&Filter=N&title=CFMZ6HQ&VPD=Y> (wedi'i ddiweddarau'n fisol)

D13: Cyllid y DU - Prydain Fawr. Ar gael o: <https://www.ukfinance.org.uk/q4-2017-sme-manufacturers-borrow-more-while-service-businesses-retrench/> (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D14: Cyllid y DU (2018). Benthycia BBaCh Prydain (benthyciadau a gorddrafftiau). Ar gael o: <https://www.ukfinance.org.uk/statistics/postcode-lending/> (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D15: Cyllid y DU (2018), Agregau BBaCh-PF Ch2 2018. Ar gael o:

<https://www.ukfinance.org.uk/sme-loan-approval-rates-remain-high/> (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D16 & D17: Y Gymdeithas Cyfalaf Ecwiti a Menter Brydeinig, Adroddiad BVCA ar Weithgaredd Buddsoddi (2017). Ar gael o:

<https://www.bvca.co.uk/Portals/0/Documents/Research/Industry%20Activity/BVCA-RIA-2017.pdf?ver=2018-07-05-190000-180×tamp=1530813602675> (y diweddariad nesaf: l'w gyhoeddi)

D18 & D19: FAME, Bureau van Dijk, ac yn seiliedig ar ddata Tŷ'r Cwmnïau. Ar gael o:

<https://fame.bvdinfo.com/version-2018327/Home.serv?product=fameneo&setlanguage=en> (wedi'i ddiweddar'u'n fisol)

D20-D31: Banc Datblygu Cymru, Dadansoddiad arbennig